CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF

GWŶS I GYFARFOD

P J Lucas
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Ffôn: (01443) 424099 – Mrs Z.Maisey

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 26 Chwefror 2014** am **5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGANIAD BUDDIANT

1 Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYHOEDDIADAU

3 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2014 yn rhai cywir. 1 – 10

LLYWODRAETHU AGORED

4 DATGANIADAU yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

5 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

(1) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Griffiths i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu'r Economi a Chymunedau Diogel (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Cannon,QPM)**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu'r Economi a Chymunedau Diogel ddatganiad ar baratoadau'r Cyngor ar gyfer y cylch nesaf o gyllid Ewrop?"

(2) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Thomas i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu Cynaliadwy, Hamdden a Thwristiaeth (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan)**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu Cynaliadwy, Hamdden a Thwristiaeth ddatganiad ynglŷn â dull y Cyngor o fynd ati mewn perthynas â rheoli cyrchfan?"

(3) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Bradwick i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Rheng-flaen (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Rheng-flaen ddatganiad ynglŷn â sut rhoddodd y Cyngor gymorth i drigolion yn ystod y cyfnod o dywydd garw yn ddiweddar?"

(4) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol K.Montague i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Ymgysylltu â'r Gymuned (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol (Mrs) M.Webber)**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd ddatganiad ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn cyfathrebu â'r cyhoedd?"

(5) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman i'r Maer (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings)**

"A wnewch chi ddatganiad ar Reol 9 a'i holl is-baragraffau o dan Ran 4, Rheolau Gweithdrefn sy'n rhan o Gyfansoddiad y Cyngor, a'u cymhwyso o ran eu heffaith ar gynnal Cyfarfodydd o'r Cyngor?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

6 Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer 2014/2015

Trafod adroddiad y Cabinet 11 – 77

(**Nodwch**: Yn unol â Rheol Gweithredu 2(b) Fframwaith Cyllideb a Pholisi, rhaid i hynny isod gael ei drafod ar y cyd â'r adroddiad uchod:

“Annwyl Mr. Lucas,

Byddwch gystal â derbyn yr e-bost hwn fel rhybudd ysgrifenedig o’r cynnig sy’n dilyn ar ran Grŵp Plaid Cymru, The Party of Wales, gan Y Cynghorydd Pauline Jarman a’i eilio gan Y Cynghorydd Geraint Davies.

“Gostwng nifer yr Aelodau o'r Cabinet o 10 i 7 er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer y gwasanaethau

£31,900 - £13,175 x 3 = £56,175 o arbedion

Peidio â thalu Tystysgrifau Gweithredol y 16 o Gyfreithwyr y Cyngor = £7,040 o arbedion.

Cofion,
Y Cynghorydd Pauline Jarman”

7 Penderfyniad ar Dreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2015

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol 79 – 88

8 Ardoll Seilwaith Cymunedol

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio 89 – 108

9 Adolygiad o'r cap o ran indemniadau ar gyfer Aelodau

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol 109 – 111

10 Adolygiad o Wasanaeth y Crwner

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau 113 – 121

Cyfreithiol a Llywodraethol

11 Newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor
(1) Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013
(2) Cylch Gorchwyl Pwyllgorau Craffu'r Cyfadrannau

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol 123 – 154

12 RHYBUDD O GYNNIG

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, I.Pearce, K.Morgan, S.Rees-Owen, M.Weaver, C.Davies, S.Evans-Fear ac E.Webster:

"Bod y Cyngor hwn yn ymrwymo i fuddsoddi Cronfeydd Strwythurol Undeb Ewrop, o dan y rhaglen gyllid ar gyfer y cyfnod 2014 – 2020, mewn cynlluniau adfywio allweddol mewn perthynas â medrau a diweithdra ymhlith pobl ifainc, a datblygu mentergarwch cymdeithasol yn ardal Ogleddol y Fwrdeistref Sirol hon, fel sydd wedi'i diffinio yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor.

Mae hyn yn angenrheidiol fel bod cynnydd a llewyrch economaidd yr ardaloedd hynny yn gwella a bod y cymoedd yn peidio â bod ymhlith yr ardaloedd tlotaf yn Ewrop".

13 RHYBUDD O GYNNIG

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol L.Walker, P.Wasley a P.Howe:

"A fyddai'r Cyngor yn ystyried, er budd pennaf pobl dda Rhondda Cynon Taf ac o ran y Broses Ddemocrataidd, fod nifer y rhybuddion o gynigion sydd ar gael i wrthbleidiau yn cynyddu i bump ar gyfer y Grŵp Annibynnol bob blwyddyn"

14 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At: Pob aelod o'r Cyngor
19 Chwefror 2014

This page intentionally blank